Swansea University
Prifysgol Abertawe

# Prifysgol Abertawe

## Nodyn Arweiniad Rheoli Gwastraff WMGN02:

- **Plastigion a Chartonau**

| | |
|---|---|
| **Awdur:** | Ben Harris (Swyddog yr Amgylchedd) |
| **Cymeradwywyd gan:** | Teifion Maddocks (Rheolwr Cynaliadwyedd) |
| **Dyddiad creu:** | 09/11/2018 |
| **Dyddiad y fersiwn:** | 06/03/2026 |

| Nodyn Arweiniad Rheoli Gwastraff WMGN02<br>Plastigion a Chartonau | |
|---|---|
| Man creu | Amrywiol |
| Côd Gwastraff Ewropeaidd (EWC) | 20 01 39 |
| Math | Ddim yn beryglus o gwbl |
| Dull gwaredu | Gwahanu i'w ailgylchu |
| Math o fin / bag | Bin cwad / bag tryloyw |

## Gofynion Dyletswydd Gofal

**20 01 39** – Plastigion

Rhaid i bob busnes neu gorff cyhoeddus sy'n creu deunyddiau gwastraff ddosbarthu ei wastraff yn gywir, rhoi egwyddorion yr Hierarchaeth Gwastraff ar waith, a cheisio lleihau'r swm o wastraff a anfonir i gael ei waredu. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu sicrhau bod yr holl wastraff yn cael ei wahanu ar y safle a'i waredu drwy'r ffrydiau cywir.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i wahanu ei gwastraff ar y safle cyn ei waredu, gan ganolbwyntio ar ddidoli'r ffrydiau ailgylchu allweddol: caniau, papur, plastigion a gwydr. Mae gwahanu deunyddiau ar y safle cyn eu gwaredu yn gwella ansawdd y cynnyrch ailgylchu a hefyd yn cydymffurfio â Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011. Mae'r Rheoliadau'n nodi bod yn rhaid casglu deunyddiau megis papur, metelau, plastigion a gwydr ar wahân er mwyn hyrwyddo safonau uchel wrth ailgylchu'r deunyddiau.

Yn ogystal, ym mis Ebrill 2024, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Reoliadau Ailgylchu yn y Gweithle newydd sy'n berthnasol i bob cwmni yng Nghymru. Mae gofyniad cyfreithiol i wahanu deunyddiau dan y rheoliadau canlynol: Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023

## Eitemau

Mae'r eitemau y gellir eu rhoi ym magiau 'Ailgylchu Plastigion' y Brifysgol yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| 1 PET | poteli diod gwag / potiau iogwrt gwag / tybiau margarîn gwag / hambyrddau bwyd tryloyw gwag |
| 2 HDPE | poteli llaeth gwag / poteli hylif golchi dillad gwag / poteli siampŵ gwag / poteli cynnyrch glanhau plastig gwag |

| | |
|---|---|
| Cynwysyddion gwastraff Tetra-Pak  | Gellir gwaredu'r rhain yn y banc Tetra-pak y tu ôl i Dŷ Fulton.<br><br>**Ni ellir rhoi'r rhain yn y bagiau ailgylchu plastigion coch cyffredinol.** |

Dylid rhoi plastig glân yn unig yn y biniau gwastraff plastig pwrpasol (sydd fel arfer yn rhan o "finiau cwad/deuol" safonol y Brifysgol. Ar gyfer deunydd nad yw ei gyfansoddiad yn hysbys a/neu sydd wedi'i halogi, cysylltwch â'r Tîm Cynaliadwyedd (estates-waste@abertawe.ac.uk) am arweiniad a manylion pellach.

**Ni ddylid** gwneud y canlynol dan unrhyw amgylchiadau;

(a) rhoi gwastraff cyffredinol yn y bin ailgylchu gan ei fod yn llygru'r ffrwd ailgylchu, yn gallu achosi problemau ymhellach i lawr y gadwyn gyflenwi ac nid yw'n cydymffurfio â'r rheoliadau gwahanu gwastraff.
(b) rhoi plastigion sydd wedi'u halogi â deunyddiau neu sylweddau eraill megis gwastraff bwyd neu gemegau yn y biniau. Pan fo'n bosib, dylid eu glanhau cyn eu rhoi nhw yn y bin ailgylchu plastigion
(c) rhoi cynwysyddion Tetra-pak mewn bagiau ailgylchu gwastraff plastig coch. Gellir gwaredu'r rhain drwy'r banc Tetra-pak y tu ôl i Dŷ Fulton.

Ceir rhagor o arweiniad am yr hyn y gellir ei ailgylchu yn Casglu deunyddiau gwastraff ar wahân i'w hailgylchu: côd ymarfer Cymru – Atodiad 2

## Cyfarwyddiadau Gwaredu

### Biniau mewnol

Dylid defnyddio biniau cwad a deuol i waredu plastigion. Caiff yr holl ddeunyddiau ailgylchadwy eu labelu fel "Plastigion a chartonau" a bydd ganddynt fag bin tryloyw. **Ni ddylid defnyddio cynwysyddion personol / dan y ddesg mewn swyddfeydd gan fod hynny'n rhwystro ailgylchu deunyddiau.**



Ffigur 1 - Biniau "deuol" dan do Prifysgol Abertawe

## Storio Allanol

Dylid defnyddio biniau cwad a deuol i waredu plastigion. Caiff yr holl gynwysyddion eu labelu fel “Plastigion”.




Ffigur 2 - bin "cwad" allanol Prifysgol Abertawe a bin contractwr Euro 1100L allanol

Caiff bagiau bin tryloyw a gesglir eu rhoi yn y biniau pwrpasol mwy o faint (a ddarperir gan y contractwr rheoli gwastraff), a leolir mewn storfeydd ledled ystad y Brifysgol.

## Lleoliadau Storfeydd Gwastraff Allanol a Gwybodaeth Berthnasol

**Campws y Bae:**

- Iard Wasanaeth
- Llyfrgell y Bae
- Y Twyni
- Adeilad Gogleddol Peirianneg

**Campws Singleton:**

- Keir Hardie*
- Llyfrgell a Chanolfan Gwybodaeth
- Tŵr Faraday*
- Talbot
- Grove*
- Tŷ'r Undeb
- Preseli*
- Langland*
- ILS1*
- Llŷr

*mae biniau Euro 1100L allanol ar gyfer y storfeydd hyn bellach yn cael eu cadw mewn unedau gorchuddiedig dan glo:



Ffigur 3 - Campws Singleton: Storfeydd gorchuddiedig ar gyfer biniau Euro 1100L allanol

Gellir cyflwyno cais am gôd mynediad y storfeydd hyn drwy e-bostio estates-waste@abertawe.ac.uk

**Rhowch wybod am unrhyw niwed i'r storfeydd neu faterion mynediad cyn gynted â phosib drwy Ddesg Gymorth Ystadau**

## Costau Gwaredu

Caiff costau casglu ac ailgylchu eu cynnwys yn narpariaeth gwasanaethau rheoli gwastraff y Brifysgol; o ganlyniad, ni chodir cost uniongyrchol ar unigolion/Gyfadrannau/Unedau Gwasanaeth Proffesiynol. Fodd bynnag, gall unigolion leihau costau a chyfrannu at darged y Brifysgol i gyflawni cyfradd o **75%** o ran dargyfeirio gwastraff o safleoedd EfW neu dirlenwi drwy sicrhau eu bod yn cael gwared â'r holl blastigion a chartonau sy'n addas i'w hailgylchu yn y biniau penodol, gan leihau effaith amgylcheddol a chefnogi'r economi gylchol

## Labelu

Gweler y templed

**Am ragor o arweiniad, e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk**


plastigion
a chartonau
plastics
& cartons